*CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL*

# Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llandysul a gynhaliwyd yn Ysgol Bro Teifi ac ar Zoom ar 15fed Mai 2023

# Minutes of Annual Meeting of Llandysul Community Council held at Ysgol Bro Teifi and on Zoom, on 15th May 2023

## <u>Yn Bresennol/Present</u>:

Cynghorwyr/Cllrs Matt Adams, Beth Davies, Douglas Davies, Peter Evans, Elen Grantham, Andrew Howell, Gethin Jones, Sue Lloyd, Keith Evans, Mike Hotson

Cafwyd adroddiad gan PCSO Anwen Davies ac Andy Tasker yn cynnig Diweddariad am Droseddau a Digwyddiadau ar gyfer ardal y Cyngor. Estynnodd yr aelodau eu diolch am yr adroddiad. / A report was received from PCSO Anwen Davies and Andy Tasker providing a Crime and Incident Update for the Councils area. Members extended their thanks and gratitude for the report.

Estynnwyd croeso cynnes i PCSO Charlotte a oedd yn bresennol yn y cyfarfod i ateb unrhyw rai o Gwestiynau'r Cynghorwyr.

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol:-

- A yw'r cymorthfeydd PCSO yn cael eu cynnal o hyd? ***Ymateb.*** *Nododd y Swyddog bod yr ymweliadau yn ddibynnol ar y ffaith bod trafnidiaeth ar gael ac ar flaenoriaethau gweithredol.*
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol – esboniad am yr hyn a ddigwyddodd? ***Ymateb.*** *Cafwyd cwynion am gontractwyr mewn tractorau yn goryrru. Hysbyswyd y cyfarfod gan y Swyddog bod contractwyr yn aml yn gorfod gweithio oriau anghymdeithasol yn ystod y cyfnod cynaeafu ac os byddai hynny'n cael ei ystyried yn briodol ar adeg benodol, byddai heddweision yn archwilio trwyddedau a'r cerbydau sy'n cael eu defnyddio. Awgrymodd yr aelodau y dylid cynnal sesiwn codi ymwybyddiaeth gydag e.e. CFfI, marchnadoedd da byw ac wrth gael cyswllt gyda'r Undebau Amaeth.*

A warm welcome was given to PCSO Charlotte who was present at the meeting to answer any of the Councillors Questions.

The following questions were asked:-

- Are the PCSO surgeries still taking place? ***Response***. *The Officer responded that visits were dependant on the availability of transport and operational priorities.*
- Anti-social behaviour – an explanation to what had happened? ***Response.*** *Complaints had been received regarding alleged speeding by contractors using tractor and implements. The Officer informed the meeting that contractors often had to work anti-social hours at harvest time and if deemed appropriate at a given time, officers would check licences and the vehicles being used. Members suggested an awareness raising session with e.g. Yfc, livestock markets and liaising with the Farming Unions.*

Isod, gweler rhestr o'r troseddau a adroddwyd yn wardiau tref Llandysul, Pontsiân a Chapel Dewi. / Below is a list of crimes that were reported within Llandysul town, Pontsian and Capel Dewi wards.

**Adroddwyd am 8 trosedd, 1 achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol a 2 Weithgarwch Amheus**
**8 crimes, 1 anti-social behaviour, 2 Suspicious Activities were reported**

**Trosedd-Aflonyddu/Crime-Harrasment - 2**
Roedd pob parti yn adnabod ei gilydd / All parties known to each other
**Trosedd – Domestig / Crime – Domestics – 4**
Roedd pob parti yn adnabod ei gilydd / All parties known to each other
**Trosedd Ymosodiad / Crime Assault - 1**
Roedd pob parti yn adnabod ei gilydd / All parties known to each other
**Trosedd Byrgleriaeth /Crime Burglary– 1**
Aethpwyd ag eiddo personol o annedd preifat / Personal belongings taken from private dwelling
**Ymddygiad Gwrthgymdeithasol / Anti–Social Behaviour - 1 Adroddiad Report**
1 adroddiad am dractorau yn cael eu gyrru mewn ffordd wrthgymdeithasol yn y dref / 1 report of tractors driving anti socially in town
**Gweithgareddau Amheus / Suspicious Activities – 2**

1 adroddiad am gerbyd amheus yn ysgol Pontsiân / 1 report of a suspicious vehicle at Pontsian school
1 adroddiad am gerbyd amheus yn y dref / 1 report of suspicious vehicle in town

**Personol / Personal**

Roedd Cyng Matt Adams wedi anfon llythyr yn ymddiswyddo o'r Cyngor, a diolchodd i'r Cyngor am y fraint o gael bod yn Gadeirydd, ac adroddodd ei fod wedi cael blwyddyn bleserus a diolchodd i bawb am eu cyfeillgarwch a'u gwaith caled. Diolchodd y Cynghorwyr i'r cadeirydd a oedd yn ymddeol am gadeirio'r cyfarfodydd mor dda a gwerthfawrogwyd ei waith caled gan bawb. /

Cllr Matt Adams had sent in a letter of resignation and thanked the Council for the privilege of being Chair and reported that he had an enjoyable year and thanked all for their friendship and hard work. Councillors thanked the retiring chair for chairing the meetings so well and his hard work was appreciated by all.

**1. Ethol Cadeirydd:-** Diolchodd Cyng Matt Adams i'r Cyngor am y fraint o gael bod yn Gadeirydd ac adroddodd ei fod wedi cael blwyddyn bleserus a diolchodd i bawb am eu cyfeillgarwch a'u gwaith caled. Diolchodd y Cynghorwyr i'r cadeirydd a oedd yn ymddeol am gadeirio'r cyfarfodydd mor dda a gwerthfawrogwyd ei waith caled gan bawb. Yna, galwodd y cadeirydd a oedd yn ymddeol ar y Cyngor i ethol cadeirydd ar gyfer blwyddyn 2023-24 y Cyngor. Cynigiodd Cyng Peter Evans enw yr Is-Gadeirydd presennol, sef Cyng Andrew Howell, ond gwrthododd y cynnig ond roedd yn fodlon parhau i gyflawni rôl yr Is-Gadeirydd pe bai'r aelodau yn dymuno iddo wneud hynny. Cynigiodd Cyng Gethin Jones enw Cyng Beth Davies, ac eiliwyd y cynnig hwn gan Peter Evans a chytunodd yr Aelodau ar y penderfyniad yn unfrydol. Fel y cadeirydd newydd, diolchodd Cyng Beth Davies i'r cadeirydd a oedd yn ymddeol ac ymgymerodd â rôl y Cadeirydd am weddill y cyfarfod. (Gadawodd Cyng Matt Adams y cyfarfod yr ar adeg hon)

**2. Y Datganiad Derbyn Swydd gan Gynnwys y Cod Ymddygiad** i'w lofnodi gan y Cadeirydd cyn y cyfarfod nesaf.

**3. Ethol Is-Gadeirydd** Galwodd Cynghorydd Beth Davies ar y cyngor i ethol Is-Gadeirydd. Cynigiodd Cyng Peter Evans y dylai Cyng Andrew Howell barhau i gyflawni'r rôl, eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Douglas Davies a chytunodd yr Aelodau arno yn unfrydol.

**4. Ethol Pwyllgor Ymgyngoreion Cynllunio** Rhoddir copïau electronig i'r holl Gynghorwyr o'r holl geisiadau, sy'n eu galluogi i gyflwyno sylwadau. Yn absenoldeb sylwadau, gall y Clerc drafod ceisiadau gyda'r Cynghorwyr ar ran y wardiau amrywiol. Gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol y dylid ethol y Pwyllgor Cynllunio canlynol:- Ward Capel Dewi – Cyng Elen Grantham Ward Tref Llandysul – Cynghorwyr Andrew Howell a Mike Hotson. Ward Tre-groes – Cyng Eileen Curry. Ward Pontsiân – Cyng Gethin Jones. Rhoddwyd awdurdod dirprwyedig parhaus i'r Clerc i ddelio â'r ceisiadau rhwng cyfarfodydd trwy gysylltu â'r aelodau perthnasol.

**5. Ethol Pwyllgor Cyllid** Penderfynwyd ethol yr aelodau canlynol i'r pwyllgor Cyllid: - Cynghorwyr Beth Davies, Keith Evans, Sue Lloyd a Mike Hotson.

Byddai Cynghorwyr Keith Evans ac Andrew Howell a Douglas Davies yn parhau i gyflawni rôl y llofnodwyr sieciau.

**6. Archwilydd Mewnol** Penderfynwyd gofyn i Mr R J Foulkes barhau i gyflawni rôl yr Archwilydd Mewnol.

**7. Rheolaeth Fewnol/Gwiriwr Mewnol:-** Penderfynwyd y dylai Cyng Gethin Jones gyflawni'r tasgau Rheolaeth Fewnol/Gwiriwr Mewnol.

8. **Asesiad Risg** Mae camau priodol wedi cael eu cymryd i reoli Rheolaeth Fewnol/Asesu Risg ac adolygiad o'r Yswiriant.

**9 Derbyn Datganiad o Gyfrifon** Cynigiodd Cyng Beth Davies y dylem dderbyn y Cyfrifon fel cofnod cywir o drafodion y Cyngor dros y flwyddyn, eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Andrew Howell a chytunwyd arno yn unfrydol. Bydd y clerc yn bwrw golwg dros y colofnau gwariant er mwyn sicrhau bod y gwariant yn cael ei gofnodi yn y golofn briodol.

🗁🖎 **Election of Chair:-** Cllr Matt Adams thanked the Council for the privilege of being Chair and reported that he had an enjoyable year and thanked all for their friendship and hard work. Councillors thanked the retiring chair for chairing the meetings so well and his hard work was appreciated by all. The retiring chair then called upon the Council to elect a chair for the 2023-24 Municipal year. Cllr Peter Evans proposed the current Vice-Chair, Cllr Andrew Howell as chair, but he declined the offer but was happy to carry on as Vice-Chair if members wished. Cllr Gethin Jones proposed Cllr Beth Davies this was seconded by Peter Evans and unanimously agreed by Members. As the newly elected chair Cllr Beth Davies thanked the retiring chair and took the chair for the remainder of chairing the meeting. (Cllr Matt Adams left the meeting at this point)

**2. Declaration of Acceptance of Office to Include Code of Conduct** will be signed by all Chair in advance of the next meeting.

**3. Election of Vice Chair** Cllr Beth Davies called upon the council to elect a Vice-Chair. Cllr Peter Evans proposed Cllr Andrew Howell remain, this was seconded by Cllr Douglas Davies and unanimously agreed by Members.

**4. Election of Planning Consultees Committee** All Councillors are provided with electronic copies of all applications enabling them to submit comments. In the absence of comments Clerk is able to discuss applications with the Councillors for the various wards. It was unanimously resolved to elect the following Planning Committee:- Capel Dewi Ward – Cllr Elen Grantham Llandysul Town Ward – Cllrs Andrew Howell and Mike Hotson. Tregroes Ward - Cllr Eileen Curry. Pontsian Ward – Cllr Gethin Jones. Continued delegated authority was given to the Clerk to deal with the applications between meetings by contacting the relevant members.

**5. Election of Finance Committee** It was resolved to elect the following to the Finance committee: - Cllrs Beth Davies, Keith Evans, Sue Lloyd and Mike Hotson.

Cllrs Keith Evans and Andrew Howell and Douglas Davies would remain as Cheque signatories.

**6. Internal Auditor** It was resolved to ask Mr R J Foulkes to continue as Internal Auditor.

**7. Internal Control/Internal Checker:-** It was resolved that Cllr Gethin Jones undertakes the tasks of Internal Control/Internal Checker.

**8. Risk Assessment** Appropriate steps to manage Internal Control/Risk Assessment and review of Insurance have been taken.

**9 To Receive Statement of Accounts** Cllr Beth Davies proposed that we accept the Accounts as a true record of the Council's transactions over the year,

**10** **Datgelu Buddiannau** Atgoffwyd yr holl aelodau mai eu cyfrifoldeb unigol nhw yw datgelu eu budd os byddant yn trafod eitem y mae ganddynt fudd i'w datgelu mewn perthynas â hi. Atgoffwyd yr aelodau o'r ffaith bod Cyng Keith Evans wedi ceisio a sicrhau goddefeb i siarad am a phleidleisio am faterion sy'n ymwneud â Llandysul Pontyweli Ymlaen Cyf, Cymdeithas Chwaraeon Llandysul a Calon Tysul tan 16/09/2023. Yn ogystal, atgoffwyd yr aelodau y gallent wneud cais am a cheisio goddefeb i bwyllgor Moeseg a Safonau Ceredigion pe baent yn dymuno. Datgelwyd budd gan Gyng Keith Evans mewn perthynas â'r ceisiadau am rodd gan Ysgol Bro Teifi a Wiberod, a chan Gyng Gethin Jones mewn perthynas â'r cais am rodd gan Ysgol Bro Teifi.

**11** Derbyniwyd bod **cofnodion** y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 17 Ebrill 2023 yn gywir.

**12** **Materion yn Codi:-**

Seddau Gwag – Atgoffwyd yr aelodau o'r ffaith na chafwyd unrhyw geisiadau i fod yn aelod ar gyfer y ddwy sedd wag yn ward tref Llandysul. Gofynnwyd i'r aelodau nodi aelodau posibl priodol erbyn y cyfarfod nesaf, a gofyn iddynt fynegi diddordeb yn y rôl trwy anfon llythyr i mewn a fyddai'n cynnig rhywfaint o wybodaeth am eu cefndir a'u profiad er mwyn i'r Cyngor eu hystyried.

O ganlyniad i ymddiswyddiad Matt Adams, mae swydd wag bellach yn bodoli ar gyfer Ward Tref Llandysul. Gofynnwyd i'r Clec ddilyn y gweithdrefnau penodedig ar gyfer llenwi'r sedd wag hon, gan hysbysu'r Cyngor Sir. Penderfynwyd y bydd y Cynghorwyr yn ceisio chwilio am bobl i gyflawni rôl Cynghorydd Cymuned a chyflwyno'r enwau arfaethedig yn ystod y cyfarfod nesaf.

Penderfynwyd y dylai'r clerc hysbysu'r Cyngor o'r ffaith bod sedd wag arall yn Ward Tref Llandysul.

**13 Rhoddion**

(Gadawodd Cynghorwyr Gethin Jones a Keith Evans y cyfarfod wrth i'r cais gan Ysgol Bro Teifi gael ei ystyried, a gadawodd Cyng Keith Evans pan ystyriwyd cais Wiberod hefyd)

**Ysgol Bro Teifi** – Cais am rodd i gynorthwyo wrth brynu tocynnau ar gyfer y disgyblion er mwyn iddynt gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri. Penderfynwyd rhoi £600.

**Wiberod** – Llythyr yn gofyn am rodd er mwyn helpu i fynd â'r merched dan 16 oed ar daith i Ogledd Cymru. Bydd y clerc yn anfon y ffurflen gais briodol atynt.

**Jei Art** – Cafwyd cais am rodd gan Jei Art. Roedd y Cynghorwyr yn dymuno cael mwy o wybodaeth cyn ystyried y cais ymhellach.

Cafwyd llythyr o ddiolch gan Bwyllgor Dathliadau'r Coroni Llandysul, yn diolch i'r Cynghorwyr am y rhodd ac am gael stondin yn y dathliadau. Siaradodd Cyng Mike Hotson yn fyr am y llythyr a dywedodd y byddai adroddiad llawn yn cael ei

this was seconded by Cllr Andrew Howell and agreed unanimously. The clerk to look at the columns of expenditure to make sure that the expenditure was recorded in the appropriate column.

**10** **Declarations of Interest** All members were reminded that it was their individual responsibility to declare their interest if discussing an item in which they had a declarable interest. Members were reminded that Cllr Keith Evans had sought and been given dispensation to speak and vote on issues appertaining to Llandysul Pontyweli Ymlaen Cyf, Cymdeithas Chwaraeon Llandysul and Calon Tysul until the 16/09/2023. Members were also reminded that they could apply and seek dispensation to Ceredigion's Ethics and Standards committee if they so wished. Declarations of interest was given by Cllr Keith Evans regarding requests for donation from Ysgol Bro Teifi and Wiberod, and Cllr Gethin Jones in the request for donation from Ysgol Bro Teifi.

**11** **Minutes** of the monthly meeting held on 17th April 2023 were accepted as correct.

**12** **Matters Arising:-**

Vacant Seats – Members were reminded that there had been no requests to become a member for the two vacant seats in the Llandysul town ward. Members were requested to identify appropriate potential members by the next meeting and to request them to submit an expression of interest letter in the role, providing some background information and experience for Council's consideration.

Due to the resignation of Matt Adams, a further vacancy now exists for the Llandysul Town Ward. The Clerk was requested to follow the set procedures for filling this vacancy and to advise the County Council accordingly. It was decided that the Councillors by next meeting try and find people to undertake a job of a Community Councillor and to bring the proposed names to the next meeting.

It was decided that the clerk inform the Council of anther vacant seat in Llandysul Town Ward.

.

**13 Donations**

(Cllrs Gethin Jones and Cllr Keith Evans left the meeting during consideration of the application by Ysgol Bro Teifi, and Cllr Keith Evans regarding the request by Wiberod)

**Ysgol Bro Teifi** – A request for a donation to assist With purchasing tickets for the pupils to compete at the Urdd Eisteddfod in Llandovery. It was decided to donate £600.

**Wiberod** – A letter asking for a donation with help With funding for taking the girls under 16s on a

gyflwyno erbyn y cyfarfod nesaf.

**14 Gohebiaeth**

Cafwyd y canlynol gan **Geredigion:-**

Cafwyd taliad a oedd yn cadarnhau bod taliad praesept wedi cael ei drosglwyddo i gyfrif Banc y Cyngor Cymuned erbyn 28 Ebrill 2023 - £15,749.50 gan bod £170 wedi cael ei ddidynnu ar gyfer Etholiadau 2022/23.

Roedd Pwyllgor Carnifal Llandysul wedi anfon neges e-bost yn gofyn a fyddai modd troi'r goleuadau Nadolig ymlaen ar gyfer gweithgareddau wythnos y Carnifal. Penderfynwyd cefnogi'r cais.

**Negeseuon e-bost** – Cyflwynwyd rhestr o'r holl negeseuon e-bost a anfonwyd at y clerc ac a anfonwyd ymlaen at yr aelodau rhwng 17 Ebrill 2022 ac 14 Mai 2023. Cafwyd copi o gylchgrawn The Clerk.

**Anfonebau**

Darparwyd gwybodaeth a derbyniwyd y dylid ysgrifennu sieciau i'w talu

Llinos Jones – Cafwyd anfoneb am y swm o £232.67 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Mawrth a mis Ebrill a derbyniwyd y dylid ei thalu.

**15 Materion Wardiau**

**Llandysul** Mae angen golchi'r safle bws a leolir wrth groesffordd Gorrig a chael gwared ar y chwyn o'i gwmpas ar fyrder. Bydd y clerc yn chwilio am rywun i lanhau holl safleoedd bws y Cyngor Cymuned.

Roedd Cyng Keith Evans wedi cael cwynion niferus am faw cŵn ar Stryd Fawr Llandysul. Adroddwyd am y mater i'r PCSO, a fyddai'n ceisio cael gair gyda'r perchennog. Hysbyswyd y Cynghorwyr hefyd gan Gyng Keith Evans o'r ffaith bod rhywbeth sy'n edrych fel hanner drws patio wedi cael ei adael yn y maes parcio. Roedd aelod o'r cyhoedd wedi gweld hwn yn cael ei adael yno yn anghyfreithlon ac roeddent wedi darparu tystiolaeth ffotograffig a datganiad i'r Cyngor Sir, a arweiniodd at gamau priodol yn cael eu cymryd. Gofynnodd i bobl fod ar eu gwyliadwriaeth ac os byddant yn dyst i unrhyw beth anffafriol, y dylent gasglu cymaint o dystiolaeth ag y bo modd, gan adrodd am y mater i'r Cyngor Sir.

Roedd Cyng Mike Hotson yn dymuno darganfod pa waith adferol fyddai'n cael ei wneud ar y Bont ger Felin Soar, Gorrig gan y Cyngor Sir, gan ei fod yn dymuno plannu ar ei eiddo.

Signal EE – Esboniodd y clerc ei bod hi'n cael cyswllt gyda Ben Lake AS am y signal gwael.

**Tre-groes/Pren-gwyn/Capel Dewi**

Roedd Cynghorydd Douglas Davies yn dymuno diolch i Gyng Keith Evans am fynychu'r holl ddigwyddiadau yng Nghapel Dewi

tour to North Wales. The clerk to send the appropriate application form.

**Jei Art** – A request for donation was received from Jei Art. Councillors wished to receive more information before considering the request further.

A letter of thanks was received from Llandysul Coronation Celebrations Committee thanking the Councillors for the donation and for having a stall at the celebrations. Cllr Mike Hotson spoke briefly to the letter and advised that a full report would be provided for the next meeting.

**14 Correspondence**

The following were received from **Ceredigion:-**

Remittance was received confirming that a precept payment had been transferred to the Community Council's Bank account by 28 April 2023- £15,749.50 as £170 had been deducted for the 2022/23 Elections.

Llandysul Carnival Committee had sent an email asking that the Christmas lights be turned on for the Carnival week activities. It was decided to support the request.

**E-mails** –A list of all the emails sent to the clerk and forwarded to members from 17t$^{h}$ April 2022 – 14 May 2023 was tabled.

A copy of the Clerk magazine was received.

**Invoices**

Information provided and cheques passed for payment

Llinos Jones – Invoice for March and April translation was received in the sum of £232.67 and passed for payment.

**15 Ward Matters**

**Llandysul** The bus stop located at the Gorrig crossroads needs to be cleaned and weeded urgently. The clerk to identify someone to clean all the Community Council bus stops.

Cllr Keith Evans had received numerous complaints of dog fouling on Llandysul High Street. The issue had been reported to the PCSO who would try to have a word with the owner.

Cllr Keith Evans also informed the Councillors That what looked like half a patio door had been dumped in the car park. A member of the public had witnessed this illegal dumping and had provided photographic evidence and statement to the County Council which resulted in appropriate action being taken. He asked people to be vigilant and if they witness something untoward, to gather as much evidence as is possible and report thematter to the County

**16 Lle Chwarae i Blant yn Llandysul**

Hysbyswyd y Cynghorwyr gan y clerc o'r ffaith y byddai Rospa yn archwilio'r Parc ym mis Mehefin.

Penderfynwyd y byddai Cyng Elen Grantham yn ymgymryd â'r gwaith o archwilio'r offer yn y parc.

**17 Lwfans Cynghorwyr**

Gan nad oes Lwfansau Cynghorwyr wedi cael eu talu er 2020/21, penderfynwyd talu lwfansau 2021/22 a 2022/23 sef £150. Roedd y clerc wedi cysylltu â'r holl aelodau, ac roeddent wedi mynegi eu dymuniadau, sef:-

Cyng Keith Evans – rhoi £300 i Sgowtiaid 1af Llandysul
Cyng Andrew Howell – lwfans personol o £300
Cyng Douglas Davies – lwfans personol o £300
Cyng Beth Davies – lwfans personol o £300
Cyng Eileen Curry – Gadael yr arian yng nghyfrif Banc y Cyngor Cymuned
Cyng Peter Evans – rhoi £300 i Galon Tysul
Cyng Matt Adams – rhoi £300 i'r Banc Bwyd
Cyng Sue Lloyd - rhoi £300 i'r Banc Bwyd
Cyng Gethin Jones - £300 i Dir Dewi
Cyng Mike Hotson - £300 i Neuadd Tysul
Cyng Elen Grantham - £150 i Ffermwyr Ifanc Pontsiân

**18 Plannu**

Cafwyd amserlen chwynnu a phlannu ddrafft gan Gyng Keith Evans. Penderfynwyd cysylltu â Mr Dave Dehurst a gofyn iddo wneud y gwaith chwynnu ac y dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r cam o fabwysiadu'r amserlenni drafft yn ystod y cyfarfod nesaf.

**19 Adroddiad gan Gynghorwyr Sir**

Cafwyd adroddiad manwl gan Gyng Keith Evans yn rhestru'r holl ddigwyddiadau/cyfarfodydd yr oedd wedi'u mynychu yn ystod y mis blaenorol.

**20 Lwfans y Cadeirydd** Penderfynwyd y dylid cadw swm y lwfans yr un peth, sef £300.

**21 Cyflog y Clerc** – Penderfynwyd y dylai'r clerc symud ymlaen i'r pwynt cynyddrannol nesaf ar y raddfa gyflog. Penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu ag Arwyn Vobe, y Cyfrifydd, er mwyn gwneud y newidiadau angenrheidiol.

**23. Papur ysgrifennu** Penderfynwyd y gallai'r Clerc brynu'r papur ysgrifennu a'r inc angenrheidiol heb orfod sicrhau cytundeb y Cyngor ymlaen llaw, ond y dylid adrodd am unrhyw weithgarwch o'r fath yn ystod cyfarfod nesaf y Cyngor.

**24. Cynllunio**

Cefnogwyd y cynlluniau canlynol gan y Cyngor Cymuned ac ni wnaethpwyd unrhyw Wrthwynebiadau i'r cynigion: -

A230342 – Siop Pontsiân. – Newid y cynllun presennol.
A230305 – Gwasg Gomer – Adeilad Storio Ychwanegol

Council.

Cllr Mike Hotson wished to find out what remedial work would be happening to the Bridge by Felin Soar, Gorrig by the County Council as he would like to plant on his property.
EE Signal – The clerk explained that she was in contact with Ben Lake MP with regards to the poor signal.

**Tregroes/Prengwyn/Capel Dewi**

Councillor Douglas Davies wished to thank Cllr Keith Evans for attending all events in Capel Dewi

**16 Llandysul Children's Playarea**

The clerk informed the Councillors that Rospa would be inspecting the Park in June.
It was decided that Cllr Elen Grantham would take over monitoring the park apparatuses.

**17 Councillors Allowance**

As Councillors Allowances haven't been paid since 2020/21 it was decided to pay the 2021/22 and 2022/23 allowances for £150. The clerk had circulated all members for them to indicate their withes whch are:-

Cllr Keith Evans - £300 to be donated to 1st Llandysul Scouts
Cllr Andrew Howell- £300 allowance personally
Cllr Douglas Davies - £300 allowance personally
Cllr Beth Davies - £300 allowance personally
Cllr Eileen Curry – Leave in the Community Council Bank account
Cllr Peter Evans - £300 to be donated to Calon Tysul
Cllr Matt Adams - £300 to be donated to the Food Bank
Cllr Sue Lloyd - £300 to be donated to the Food Bank
Cllr Gethin Jones - £300 Tir Dewi
Cllr Mike Hotson - £300 Tysul Hall
Cllr Elen Grantham - £150 Pontsian Young Farmers

**18 Planting**

A draft weeding and planting schedule was received from Cllr Keith Evans. It was decided to approach Mr Dave Dehurst to undertake the job of weeding and that further consideration be given at the next meeting to adopt the draft schedules.

**19 Report by County Councillors**

A detailed report was received from Cllr Keith Evans listing all events/meetings that he had attended in the previous month.

**20 Chair's Allowance** It was decided that the allowance should remain at £300.

**21 Clerk's Salary** – It was decided that the clerk progress to the next incremental point on the pay

scale. It was decided that the clerk contact Accountant Arwyn Vobe for the necessary changes to be made.

23. **Stationery** It was resolved that the Clerk could purchase necessary stationery and ink without prior agreement of Council but to report any such action to the next available meeting of Council.

24. **Planning**

The following plans were supported by the Community Council and there were no Objections to the proposals: -

A230342 – Pontsian Stores. – Alteration of existing layout.
A230305 – Gwasg Gomer Press – Additional Storage Building

**Arwyddo Sieciau/Signing of Cheques**:

Gorchmynnwyd ac i'w tynnu gan y Trysorydd/
Ordered and same are hereby drawn on the Treasurer:-

| | | £ c/£ p | |
|---|---|---|---|
| 1st Llandysul Scouts | Councillor Allwance KE 2021/22 and 2022/23 | 300.00 | 000113 |
| Beth Davies | Councillor Allowance BD 2021/22 and 2022/23 | 300.00 | 000114 |
| Calon Tysul | Councillor Allowance PE 2021/22 and 2022/23 | 300.00 | 000115 |
| Banc Bwyd Llandysul | Councillor Allowance MA 2021/22 and 2022/23 | 300.00 | 000116 |
| Douglas Davies | Councillor Allowance DD 2021/22 and 2022/23 | 300.00 | 000117 |
| Banc Bwyd Llandysul | Councillor Allowance SL 2021/22 and 2022/23 | 300.00 | 000118 |
| Tir Dewi | Councillor Allowance GJ 2021/22 and 2022/23 | 300.00 | 000119 |
| Andrew Howell | Councillor Allowance AH 2021/22 and 2022/23 | 300.00 | 000120 |
| Tysul Hall | Councillor Allowance MH 2021/22 and 2022/23 | 300.00 | 000121 |
| Llinos Jones | Cyfieithu/Translation | 232.67 | 000122 |
| Ysgol Bro Teifi | Donation/Rhodd | 600.00 | 001123 |
| Nia Davies | Clerc/Clerk Wages | 530.44 | 001124 |
| HMRC | Cyflog y Clerc/Clerk Wages | 132.60 | 001125 |
| Pontsian Young Farmers | Councillor Allowance EG 2022/23 | 150.00 | 000126 |